

# Gweithiwr Preswyl Plant

## Gweithiwr Therapiwtig Plant Preswyl

37 yr wythnos ar sail rota, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

£25,119 i £26,421 a lwfans cysgu i mewn yn amodol ar werthusiad swydd

Ydych chi'n credu mewn rhoi'r gefnogaeth orau posibl i blant? Yn fodlon gwneud pethau'n wahanol?

Rydym ni yng Nghyngor Sir y Fflint, yn credu yn y pethau hyn hefyd. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi mewn gwasanaeth preswyl newydd sbon. Rydym yn ymfalchïo yn ein huchelgais. Wrth weithio mewn partneriaeth rydym yn anelu am y gorau ac yn chwilio am rywun gyda'r un ymroddiad i ymuno â'n tîm.

Fe fyddwch yn angerddol dros sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn ein gofal yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu yn eu haddysg, eu diddordebau a'u perthnasoedd. Fe fyddwch, gyda'r rheolwyr a'r tîm yn canolbwyntio ar fyd cyfan ein pobl ifanc.

Byddwch yn sicrhau eich bod yn darparu gofal o safon uchel ac yn cadw at ofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (RISCA).

Fe fyddwch hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr o amrywiaeth o wasanaethau a sefydliadau amlasiantaeth.

Os ydych yn chwilio am swydd werth chweil a llawn boddhad ac yn rhywun gydag agwedd gadarnhaol sy'n llawn empathi, byddem yn falch iawn o glywed oddi wrthych chi. Rydym yn ddelfrydol yn chwilio am ymgeiswyr gyda phrofiad o weithio gyda grwpiau o bobl ddiamddiffyn a fydd yn gallu cyfrannu amrywiaeth o sgiliau perthnasol. Fodd bynnag byddem hefyd yn falch iawn o glywed gan unigolion sy'n teimlo eu bod yn meddu ar y rhinweddau cywir i ymgymryd â'r rôl gyffrous hon.

Gan y bydd deiliad y swydd hon yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant ddiamddiffyn, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn orfodol.

I gael rhagor o wybodaeth a sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch ag Melvin Jones:
melvin.jones@flintshire.gov.uk

Gyda'r gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council